**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Rheilffyrdd**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Rheilffyrdd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 05 Tachwedd 2025. Mae'r Bil ar gael yn: Y Bil Rheilffyrdd. Gosodais LCM ar 21 Ionawr 2026.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 47 gwelliant ar 16 Ionawr 2026 i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

**Amcanion y Polisi**

4. Mae Amcanion Polisi'r Bil a nodwyd yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 21 Ionawr 2026, yn parhau'n gywir.

**Crynodeb o'r Bil**

5. Mae crynodeb o'r Bil a nodwyd yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 21 Ionawr 2026, yn parhau'n gywir.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

6. Mae'r LCM atodol hwn yn ymwneud â gwelliannau’r Llywodraeth i ddarpariaethau yn y Bil fel y'u cyflwynwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2026. Dylid darllen y darpariaethau a restrir yn yr LCM hwn ochr yn ochr â'r LCM cyntaf a osodwyd ar 21 Ionawr 2026.

7. Mae'r ddeialog rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU yn parhau wrth ddatblygu'r Bil hwn, er mwyn deall ei ddarpariaethau, sut y maent yn gymwys i Gymru a'u heffaith bosibl ar y gwasanaethau rheilffyrdd a ddarperir yng Nghymru.

**Darpariaethau i'r Bil i'w hystyried wrth ei gyflwyno y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Yn fy marn i, mae angen LCM atodol mewn perthynas â'r gwelliannau i gymalau 2, 7, 24, 31, 61, 69, Atodlen 3 a’r cymal newydd heb rif, ar godi tâl am symud etc cerbydau ffordd.

---

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel “Senedd Cymru” y tro cyntaf ac fel “y Senedd” ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

- **Cymal 2 (‘Crown status’)** Mae Gwelliant (Gov 164) yn ei gwneud yn glir nad yw'r cymal yn rhwystro Gweinidogion Cymru ac eraill rhag ymrwymo i gytundeb ag asiantaeth iddi gyflawni swyddogaethau ar eu rhan.

  > Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau ei fod yn egluro'r pŵer o sylwedd yng nghymal 4 o'r Bil, sy'n destun LCM, i wneud cytundeb ag asiantaeth.

- **Cymal 7 (Cyfarwyddydau gan Ysgrifennydd Gwladol).** Mae Gwelliant Gov 167 yn ehangu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i GBR.

  Mae Gwelliant (Gov 168) yn dileu darpariaethau sy'n ddiangen o ganlyniad i Gov 167.

  > Yn fy marn i, mae'r gwelliannau hyn yn rhoi'r sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau eu bod yn ehangu un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

- **Cymal 24 (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru)**. Mae Gwelliant Gov 169 yn nodi darpariaethau ychwanegol yn y rhestr anghyflawn o ddarpariaethau y gall y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru eu cynnwys, yn benodol o ran defnyddio’r pŵer i roi cyfarwyddydau o dan adran 7.

  > Yn fy marn i, mae'r gwelliant yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau ei fod yn newid un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

- **Cymal 31 (Darparu gwasanaethau i deithwyr ar y rheilffordd).** Mae Gwelliannau Gov 170 a 171 yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyfarnu contract gwasanaeth cyhoeddus i unrhyw gwmni sector cyhoeddus wrth arfer swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 31(1).

  > Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau ei fod yn gwneud darpariaeth sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru.

- **Cymal 61 (Yr amserlen waith).** Mae Gwelliant Gov 174 yn sicrhau y gellir cytuno ymlaen llaw ac mewn termau cyffredinol ar newidiadau i'r amserlen waith a gyhoeddir gan GBR, ac mae'n nodi sut y gellir cytuno arnynt.

  > Yn fy marn i, mae'r gwelliant yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau ei fod yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru.

- **Cymal 69 (Cytundebau Mynediad).** Mae Gwelliannau Gov 175 a 176 yn cyfyngu ar bŵer y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) o dan Ddeddf Rheilffyrdd 1993 i gyfarwyddo perchnogion cyfleusterau i ymrwymo i

gytundebau mynediad. Ni chaiff yr ORR fynnu bod GBR yn ymrwymo i gontract ar gyfer defnyddio cyfleusterau'r GBR ond pan fydd angen o dan rai amgylchiadau prin i'r buddiolwr ("cyfleuster i gyfleuster") eu defnyddio mewn cysylltiad â rhedeg rhwydwaith, gorsaf neu ddepo cynnal a chadw ysgafn.

Mae Gwelliant Gov 177 yn disodli'r cyfyngiad cyffredinol yn y Bil ar GBR rhag ymrwymo i gontractau mynediad ac yn ei le, mae'n gosod cyfyngiad sy'n galluogi contractau mynediad "cyfleuster i gyfleuster" o dan rai amgylchiadau prin, sy'n gymwys i'r contractau hynny yn unig.

Mae Gwelliant Gov 178 yn dileu'r cyfyngiad ar GBR fel perchennog cyfleuster rhag ymrwymo i gontractau mynediad ar gyfer gosod.

Mae Gwelliant Gov 179 yn darparu bod yr ORR yn cael arfer ei bwerau o ran cymalau enghreifftiol mewn perthynas â chontractau mynediad y mae GBR yn ymrwymo iddynt, hynny dim ond os yw'r contract mynediad yn gontract "cyfleuster i gyfleuster", yn unol â thrywydd gwelliannau eraill sy'n ymwneud â threfniadau mynediad.

Mae Gwelliannau Gov 180 a 181 yn darparu bod angen cymeradwyaeth yr ORR ar gyfer diwygio contractau mynediad 'cyfleuster i gyfleuster' y mae GBR wedi ymrwymo iddynt, yn unol â thrywydd gwelliannau eraill sy'n ymwneud â chytundebau mynediad i gyfleusterau.

Mae Gwelliant Gov 182 yn cyfyngu ar bwerau'r ORR i roi cyfarwyddydau o dan adran 22A o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 i'r partïon i drefniant mynediad yn unol â thrywydd gwelliannau eraill sy'n ymwneud â threfniadau mynediad.

Mae Gwelliant Gov 183 yn cyfyngu ar bŵer yr ORR i roi cyfarwyddydau ynghylch diwygio trefniadau mynediad o dan adran 22C(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993, lle mae GBR yn rhan o gytundeb mynediad. Mae hyn yn gyson â'r trywydd yn y gwelliannau eraill ynghylch cytundebau mynediad.

> Yn fy marn i, mae'r gwelliannau yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau y gallent effeithio ar y gwasanaethau rheilffyrdd a ddarperir y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

- **Cymal Newydd (Codi tâl am symud etc cerbydau ffordd).** Mae Gwelliant Gov NC23 yn darparu, pan fydd cerbydau ffyrdd yn creu rhwystr ar dir rheilffordd, y gellir codi ffi am symud ac ati y cerbydau hynny.

> Yn fy marn i, mae'r cymal newydd hwn yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau y gallai effeithio ar weithredwr rhwydwaith sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt, neu weithredwr gorsaf a ddefnyddir gan wasanaethau rheilffordd y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

- **Atodlen 3 (Diwygiadau i Ddeddf Rheilffyrdd 1993).** Mae Gwelliant Gov 186 yn dileu'r ddarpariaeth ynghylch gwasanaethau â masnachfraint a gwasanaethau gweithredwyr dewis olaf gan na fydd eu hangen mwyach.

  Mae Gwelliant Gov 187 yn dileu cyfeiriadau at Atodlen 4A i Ddeddf Rheilffyrdd 1993, gan fod y Bil yn dileu'r Atodlen.

  Mae Gwelliant Gov 188 yn newid y darpariaethau ynghylch tocynnau cosb yn Neddf Rheilffyrdd 1993 er mwyn adlewyrchu'r ffordd y bydd gwasanaethau i deithwyr yn cael eu darparu o dan Ran 2 o'r Bil.

  Mae Gwelliant Gov 189 yn diddymu adran 136 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 (grantiau a chymorthdaliadau).

  Mae Gwelliant Gov 191 – paragraff 26A - yn gwneud gwelliannau canlyniadol i'r ddarpariaeth ynghylch gorchmynion gweinyddu rheilffyrdd.

  > Yn fy marn i, mae'r gwelliant hwn yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau ei fod yn ganlyniad i gymalau a nodwyd fel rhai sy'n gofyn am LCM.

- **Atodlen 3 (Diwygiadau i Ddeddf Rheilffyrdd 2005).**

  Mae Gwelliant Gov 195 yn diddymu adrannau 3 a 4 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

  Mae Gwelliant Gov 196 yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil, yn enwedig dod â'r system fasnachfreinio i ben. Mewn perthynas â'r paragraffau canlynol a fewnosodwyd –

  > 33A – Mae adran 6 o Ddeddf 2005 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
  >
  > 33C – Mae adran 10(3) i (12) o Ddeddf 2005 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru ar gyfer rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd.

  Mae Gwelliant Gov 197 yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil, yn enwedig dod â'r system fasnachfreinio i ben; gweler yn arbennig gymalau 25 i 32. Mewn perthynas â'r paragraffau canlynol a fewnosodwyd –

  > 34B – mae’n dileu testun sy'n mewnosod darpariaeth yn Neddf Rheilffyrdd 1993, yn arbennig dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban i ddarparu gwasanaethau Cymreig os nad yw Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid at lefel benodol.
  >
  > 34D – mae’n diwygio darpariaethau ar gyfer cynigion gan weithredwyr gwasanaeth i ddod â gwasanaethau sydd heb eu masnachfreinio, i ben.

34E – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer cynigion gan yr awdurdod cyllido rheilffyrdd i ddod â gwasanaethau sydd heb eu masnachfreinio i ben.

34F – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer cynigion i ddod â wasanaethau â masnachfraint neu wasanaethau sicr i ben.

34H a 34I – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch cynigion i wneud mân newidiadau sy'n cau gwasanaethau neu orsafoedd.

34J – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch dynodi gwasanaethau arbrofol i deithwyr.

34K – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch dod â gwasanaethau arbrofol i deithwyr i ben.

34L – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch eithrio gwasanaethau, rhwydweithiau a gorsafoedd rhag y darpariaethau ynghylch dod â nhw i ben.

34N – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch gwasanaethau ffyrdd yn lle trenau.

34Q – mae’n diwygio'r ddarpariaeth ynghylch canllawiau cau.

34R – mae’n diwygio'r darpariaethau dehongli i gynnwys awdurdodau cyfunol â maer ac awdurdodau sirol cyfunol â maer, i hepgor cyfeiriadau at adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993, i eithrio cyfeiriad at "Welsh franchise agreements" ac i gynnwys cyfeiriad at Ddeddfau Senedd Cymru.

Mae Gwelliant Gov 198 yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil, yn enwedig o ran dod â'r system fasnachfreinio i ben; gweler yn arbennig gymalau 25 i 32. Mewn perthynas â'r paragraffau canlynol a fewnosodwyd –

35B – yn gwneud darpariaeth am y cod ymarfer ar gyfer defnyddwyr anabl y rheilffyrdd yng Nghymru.

Mae Gwelliant Gov 199 yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil, yn enwedig o ran mynediad i'r trac a gorsafoedd; gweler yn arbennig cymalau 59 a 69. Mewn perthynas â'r paragraffau canlynol a fewnosodwyd –

36A – mae’n hepgor darpariaeth ynghylch adolygiadau gan ORR o amodau mynediad a thrwyddedau.

Yn fy marn i, mae'r gwelliannau hyn yn rhoi sylw priodol i faterion datganoledig i'r graddau eu bod yn ganlyniad i gymalau a nodwyd fel rhai sy'n gofyn am LCM.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y newidiadau i Fil y Rheilffyrdd yn dilyn gwelliannau gan Lywodraeth y DU ar 15 Ionawr 2026**

9. Yn fy LCM cyntaf a osodais ar 21 Ionawr 2026, tynnais sylw at y ffaith bod cymal gwreiddiol 31 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau gwasanaethau teithwyr a ddynodwyd o dan gymal 25 yn unig trwy GBR neu un o gwmnïau GBR trwy ddyfarniad uniongyrchol (Rheoliad 17 o Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023). Fodd bynnag, ni wnaeth nodi llwybr amgen lle gallai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau gwasanaethau i deithwyr drwy drefniadau gyda Gweinidogion Cymru. Mae'r Gwelliannau yng Nghymal 31 (Gov 170 a Gov 171) yn cywiro hyn ac yn gwneud darpariaeth i roi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyfarnu contract gwasanaeth cyhoeddus i unrhyw gwmni sector cyhoeddus wrth arfer swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 31(1).

**Goblygiadau ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Rheilffyrdd Llywodraeth y DU.

**Casgliad**

11. Yr wyf yn fodlon â'r gwelliannau a restrir uchod a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 2, 7, 24, 31, 61, 69, ac Atodlen 3, yn ogystal â'r cymal newydd ychwanegol mewn perthynas â chodi tâl am symud etc cerbydau ffordd.

12. Er fy mod yn parhau i gefnogi'r Bil hwn ac yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU, rwyf am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y Bil. Byddaf yn parhau i fonitro datblygiadau’r Bil ac i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd fel y bo’n briodol. O ystyried amserlen ddisgwyliedig Senedd y DU ar gyfer y Bil, mae'n debygol y byddai dadl am roi cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil hwn - ar sail ein trefn arferol o geisio trefnu dadleuon o'r fath ar ôl Cam Pwyllgor yr Ail Dŷ - yn cael ei chynnal yn Nhymor y Senedd nesaf.

**Ken Skates, AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**02 Chwefror 2026**